Cynllunio Cyfwng Busnes
Datganiad o Safbwynt

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs bob tro'n ceisio darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w gwsmeriaid ar bob adeg, ac mae'n gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion.

Mae gan y gyfundrefn nifer o brosesau a gweithdrefnau yn eu lle i fonitro'r ddau beth yma, ond ambell waith, am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth, bydd un yn effeithio ar y llall. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhoddir y flaenoriaeth i iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion.

Amgylchiad o'r fath yw'r 'ail don' o'r **ffliw moch** a ragfynegir ar gyfer yr hydref a'r gaeaf hwn, y cred yr Asiantaeth Diogelu Iechyd a fydd yn fwy difrifol na'r don gyntaf yr haf hwn (a aeth heibio gan achosi llai o anghyfleustra nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol). Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gweithredu yn y modd dilynol mewn perthynas chadw niferoedd yr achosion mor isel â phosib, a chyfyngu lledaeniad yr afiechyd, a'r aflonyddu ar ein gwaith o-ddydd-i-ddydd gymaint â phosib. Naïf ar ein rhan fyddai credu na fydd unrhyw un o'n staff yn dioddef o ffliw moch, yn enwedig gan fod y Llywodraeth yn amcangyfrif y bydd 30% o'r boblogaeth wedi profi rhai o symptomau'r pandemig ffliw moch, erbyn Ebrill 2010.

Yn y **tymor byr** bydd y gyfundrefn yn:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o symptomau ffliw moch a phwyso arnynt i geisio cyngor / sylw meddygol os ydynt yn teimlo'n anhwylus, neu os oes ganddynt blentyn sâl sy'n iau na blwydd oed.
- Cynghori cyflogeion ar y mesurau er lleihau lledaeniad yr anhwylder (osgoi cysylltiad corfforol, cario hancesi papur yn gyson, gan beswch neu disian i mewn iddyn nhw a'u rhoi yn y bin wedi eu defnyddio unwaith, golchi'r dwylo â sebon gwrthfacteria / jeli llaw hylan wedi peswch neu disian) - ei ddal, i'r bin, ei ladd'.
- Edrych ar hyfywedd galluogi gweithwyr swyddfa i weithio o gartref lle bo'n bosibl er mwyn lleihau'r raddfa y maent yn agored i eraill.
- Annog gweithwyr cartref i gyfyngu ar y nifer o ymweliadau i swyddfeydd rhanbarthol ac i ffonio clybiau cyn ymweld er mwyn darganfod lefel y risg. Bydd rhyddid i'r cyflogeion eu hunain benderfynu a yw'n ddiogel ai peidio i ymweld â'r clwb, gan ystyried eu hiechyd a'u hamgylchiadau eu hunain.
- Atgyfnerthu'r defnydd o gynadledda fideo er mwyn lleihau'r raddfa o gysylltiad wyneb-yn-wyneb rhwng aelodau o'r staff, ac archwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cynadledda fideo gyda'n cyflenwyr a'n cwsmeriaid lle bynnag bo'n bosibl.
- Sicrhau bod cynlluniau gwaith pob cyflogai yn gyfamserol, fel y gall cyflogai arall ymgymryd â'u gweithgareddau a'u llinellau terfyn pe caent eu taro'n wael.
- Adnabod rolau allweddol oddi fewn i'r gyfundrefn a sicrhau bod staff aml-sgilgar yn medru ymgymryd â'r swyddogaethau hynny os bydd rhaid.
- Trafod y posibilrwydd o grynhoi TOIL a gwyliau a ganslwyd, gan ddibynnu ar flaenoriaethau'r busnes/ lefel y gwaith a lefel yr absenoldeb oherwydd salwch.
- Hysbysu cyflogeion ynglŷn â'u cyflog yn ystod eu habsenoldeb, gan eu cyfeirio at weithio hyblyg y gyfundrefn, absenoldeb oherwydd salwch, amser o'r gwaith i ofalu am ddibynyddion a pholisïau TOIL.
- Bod yn gyfamserol â chyngor i gyflogwyr o'r Adran Iechyd, yr Asiantaeth Diogelu Iechyd a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.

Os yw cyflogeion yn teimlo'n anhwylus bydd y gyfundrefn yn:

- Anfon y cyflogai adref a phwyso arnynt i geisio cyngor meddygol cyn gynted â phosib er mwyn medru cadarnhau a oes ffliw moch arnynt ai peidio.

- Gofyn iddynt gadw o'r gwaith nes bod eu symptomau wedi diflannu a'u bod yn teimlo'n ddigon da i ddychwelyd i'w gwaith.
- Adnabod y person mwyaf cymwys i ymgymryd â gwaith y cyflogai sy'n sâl.
- Hysbysu'r bobl gyswllt allweddol o'r sefyllfa, trafod blaenoriaethau a chytuno ar yr hyn y gellir yn rhesymol ei gyflawni.
- Trefnu i ddargyfeirio galwadau ffôn ac ebostau'r person sy'n sâl at unigolyn a enwebir, lle bo'n bosibl, neu gadewir neges megis neges 'o'r swyddfa', yn gofyn i'r galwr ffonio'r swyddfa ranbarthol neu'r Brif Swyddfa.
- Dweud wrth y cyflogeion sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r person hwnnw ei fod wedi ei daro'n wael, ac y dylent fod yn wyliadwrus dros ben wrth wylio am symptomau.

Rhoddir yr egwyddorion hyn yn eu lle yn ôl yr angen. Monitrir eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd a addasir yn ôl y gofyn. Y mae'n dra thebygol y bydd ffliw moch yn effeithio ar nifer o unigolion oddi mewn i'r gyfundrefn, a gobeithiwn y bydd y mesurau hyn yn cyfyngu ar ei effaith arnom, a'n gallu i ateb y gofynion parthed ein gwasanaeth.

Amgylchiad arall fyddai **tywydd garw** yn effeithio ar allu cyflogeion i gyrraedd eu man gwaith. Nid yw hyn yn broblem yn arferol yn ein hinsawdd tymherus. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar gwelsom rai sefyllfaoedd eithafol a arweiniodd at gawodydd trwm o eira, llifogydd, gwyntoedd cryfion a thymheredd uwch anarferol o uchel yn ystod yr haf. Mae gan gawodydd o eira, llifogydd a gwyntoedd cryfion oll â'r gallu i rwystro cyflogeion rhag cyrraedd eu man gwaith ac felly bydd y cwmni'n rhoi'r mesurau canlynol yn eu lle:

- Monitro rhagolygon y tywydd yn lleol, darllediadau radio a gwybodaeth o'r gwasanaethau trafnidiaeth ac asiantaethau perthnasol megis Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas ag amodau'r tywydd a'u heffaith tebygol ar wasanaethau teithio.
- Rhybuddio pob cyflogai o unrhyw dywydd garw sydd ar y ffordd, a'u hysbysu mai nhw sydd i benderfynu a allant gyrraedd eu man gwaith yn ddiogel; os yw cyflogeion eisoes yn y gweithle, gofynnwch iddynt ystyried eu hamgylchiadau personol eu hunain a phenderfynu drostynt eu hunain a ydynt am adael yn gynnar ai peidio.
- Gofynnwch i'r rhai hynny sydd â chyfarpar wedi ei osod yn eu cartrefi ac/neu sy'n gallu gweithio o adref, i wneud hynny yn hytrach na brwydro i geisio cyrraedd y swyddfa, ac i gynllunio ar gyfer hyn drwy fynd â'r gwaith priodol adref gyda nhw.
- Gofynnwch i'r cyflogeion hynny nad oes modd iddyn nhw weithio o adref, ac sy'n analluog i gyrraedd eu gweithle arferol oherwydd tywydd garw, i gymryd TOIL neu wyliau blynyddol, mewn ymgynghoriad â'u Harweinydd Tîm.
- I'r rhai y mae eu rôl yn golygu cydweithio â chlybiau, ac ymweld â nhw, i sicrhau eu bod yn ffonio'r clybiau cyn cychwyn am ymweliad er mwyn canfod a yw'r clwb ar agor, ac i gael gwybodaeth yn lleol a ellir defnyddio'r heolydd.
- Gofyn i gyflogeion i gysylltu â'u Harweinydd Tîm fel y byddent pe baent yn sâl fel y gellid trafod ymrwymiadau gwaith a llinellau terfyn, a'u cyflawni ar eu rhan pe bai angen.

Gobeithir mai **effaith cyfyngedig** yn unig a geir ar rediad y busnes od dydd i ddydd, a'n lefel o wasanaeth i'r cwsmer. Gobeithiwn y bydd y mesurau a restrir isod yn caniatáu i'n busnes fynd yn ei flaen fel arfer, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, a byddwn yn monitro ac yn adolygu'r modd y gweithredwn er mwyn gwneud hynny mor effeithiol â phosib.